## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (STRYD FAWR, BETHESDA, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal yr orymdaith ar gyfer digwyddiad Cárnifal Bethesda ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, ym Methesda, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Stryd Fawr, Bethesda sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd y Stesion hyd at ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at y cae pêl-droed.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Mai 2026 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 13:00 – 13:30 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw. Oherwydd y bydd y ffordd ar gau am gyfnod byr yn unig, nid oes angen llwybr dargyfeiriol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A5 TRUNK ROAD (HIGH STREET, BETHESDA, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to hold the procession for the Bethesda Carnival event on or near the A5 trunk road at Bethesda, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A5 trunk road known as High Street, Bethesda that extends from its junction with Station Road to its junction with the access road leading to the football ground.

The Order comes into force on 16 May 2026 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 13:00 – 13:30 hours on that date. Due to the short duration of the closure, no diversionary route is necessary.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government